Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 28.01.2021

## PWYSIG: Cronfa Cymorth Penodol i'r Sector Cronfa Cadernid Economaidd COVID-19 yn cau 12:00pm YFORY

Bydd Cronfa Cymorth Penodol i'r Sector, a weinyddir gan Busnes Cymru, sydd wedi'i dargedu at fusnesau Lletygarwch, Twristiaeth a Hamdden a busnesau cadwyn gyflenwi cysylltiedig sydd wedi eu heffeithio'n sylweddol (mwy na 60% o effaith ar drosiant) o ganlyniad i'r cyfyngiadau gyflwynwyd yn Rhagfyr 2020 yn cau am 12:00pm yfory, 29 Ionawr 2021. Mae'r galw am y Gronfa wedi bod yn uchel – felly peidiwch ag oedi! I ddefnyddio'r gwiriwr cymhwysedd i adolygu'r meini prawf ac i ymgeisio, ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/sectorspecificgrant/cy

I ddarllen canllawiau'r gronfa, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/cymorth-penodol-ir-sector-cronfa-cadernid-economaidd-erf

- Cronfeydd Busnes Cyfyngiadau a weinyddir gan Gyngor Gwynedd

Mae cymorth ar gael i fusnesau sydd wedi gorfod cau, neu wedi dioddef gostyngiad o 40% neu fwy yn eu trosiant, o ganlyniad uniongyrchol i'r cyfyngiadau newydd. Mae busnesau cymwys, sydd heb dderbyn cymorth neu heb ymgeisio eto, yn cael eu hannog yn gryf i wneud hynny drwy gwblhau ffurflen gais syml. Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio, ewch i:

https://bit.ly/CronCyfRhag2020

# Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth SEISS

Dylid cyflwyno hawliad am y trydydd grant o'r Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth, os effeithiodd coronafeirws ar eich busnes ar neu ar ôl 1 Tachwedd 2020, ar neu cyn 29 Ionawr 2021. Os ydych yn hunangyflogedig neu'n aelod o bartneriaeth a bod coronafeirws (COVID-19) wedi effeithio'n andwyol arnoch, mae'n bosib eich bod yn gymwys i hawlio'r grant. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/guidance/claim-a-grant-through-the-self-employment-income-support-scheme.cy

# CThEM: Dim cosb ffeilio Hunanasesiad hwyr i'r rhai sy'n ffeilio ar-lein erbyn 28 Chwefror 2021

Ni fydd cwsmeriaid Hunanasesu, na allant ffeilio eu ffurflen dreth erbyn y dyddiad cau ar 31 Ionawr 2021, yn cael cosb ffeilio hwyr os ydynt yn ffeilio ar-lein erbyn 28 Chwefror 2021. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3pth6Xw

Mae mwy o wybodaeth am pryd mae CThEM yn disgwyl derbyn taliad gan gwsmeriad ar:

https://www.gov.uk/pay-self-assessment-tax-bill

## Magnox yn lansio rhaglen recriwtio prentisiaid

Mae Magnox wedi lansio rhaglen recriwtio prentisiaid newydd i gefnogi'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer eu hagenda datgomisiynu. Am ragor o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3iSKiF3

## Arloesi Bwyd Cymru: Cyfeirlyfr Bwyd a Diod Cymru

- Cyfeirlyfr ar-lein i helpu gweithgynhyrchwyr bwyd a diod o Gymru i arddangos eu cynhyrchion ar lwyfan byd-eang

Mae gweithgynhyrchwyr bwyd a diod o Gymru yn cael eu hannog i ymrestru am ddim ar gyfer cyfeirlyfr ar-lein sy'n caniatáu iddynt hyrwyddo eu cynhyrchion i brynwyr yn y DU ac ar draws y byd. Mae Cyfeirlyfr Bwyd a Diod Cymru yn bodoli i godi ymwybyddiaeth a sbarduno gwerthiant cynhyrchion Cymru ac mae eisoes yn cynnwys cofnodion gan dros 600 o gwmnïau. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://foodinnovation.wales/y-diweddaraf/?lang=cy

## Digwyddiad Gogledd Creadigol 18 Chwefror 2021

- Gwersi Covid-19 ac Edrych i'r dyfodol

Mae'r digwyddiad panel hwn fydd yn cael ei gynnal ar Zoom ar 18 Chwefror 2021, o 9:30am – 11:00am, yn gwahodd trafodaeth i effaith y pandemig Covid-19 a sut mae diwydiant wedi ymateb yn gyflym ac yn effeithiol, ynghyd â chyfle i ddysgu mwy am ddatblygiadau, a'r sgiliau sydd eu hangen yn y dyfodol. Bydd pob sesiwn panel yn cynnwys y cyfle i ofyn cwestiynau. Mae'r digwyddiad yma yn agored i bawb. Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

http://bit.ly/2MuMMNG

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru